
Dŵr Cymru
Welsh Water



# CARTREF

## — PECYN CYMORTH RHANDDEILIAID



**Mae arbed dŵr yn bwysicach nag erioed.**

Yma yn Dŵr Cymru, rydym yn credu'n gryf mewn helpu ein cwsmeriaid i arbed dŵr, ynni ac arian.

Mae prosiect Cartref Dŵr Cymru wedi bod yn helpu ein cwsmeriaid mewn cymunedau ar draws ein hardaloedd gweithredol i ddeall eu harferion defnydd, a sut y gallant wneud arbedion bychain yn eu cartrefi, drwy gynnig cynhyrchion a gwasanaethau am ddim i'w helpu i arbed dŵr.

Os gallwn ni gydweithio i wneud newidiadau bychain i'r ffordd rydym yn defnyddio dŵr, gallwn helpu i wneud gwahaniaeth mawr i'r amgylchedd a biliau eich cartref. Dyna pam rydyn ni'n gofyn am eich help.

Helpwch ni i atgoffa pobl am bwysigrwydd arbed dŵr a sut y gall defnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael drwy'r brosiect Cartref eu helpu a'u cefnogi ar eu siwrnai i arbed ynni.

# SUT Y GALLWN NI HELPU TRWSIO GOLLYNGIADAU


Mae Prosiect Cartref yn helpu cwsmeriaid i ddod o hyd i ollyngiadau yn y cartref neu'r gweithle, er enghraifft tŷ bach sy'n gollwng, sy'n gallu gwastraffu tua 12 litr yr awr. Dros ddiwrnod, mae hynny'n gallu bod cymaint â 288 litr – sef defnydd dŵr dyddiol cyfartalog 2 berson bron.

Gallwn ni helpu i drwsio toiledau sy'n gollwng neu'r rhai sy'n fflysio'n ddi-baid, y cyfan sydd angen ei wneud yw mynd i'n gwefan i gofrestru'ch diddordeb trwy glicio ar y **linc**. Ar ôl cofrestru, sy'n caniatáu i chi weld a yw'ch eiddo yn un o'r ardaloedd hyn, ac os felly, gall ein tîm drefnu apwyntiad ag un o'n plymwyr ardystiedig, a hynny'n hollol rad ac am ddim.

Neu gallwch anfon neges e-bost atom yn **cartref@dwrcymru.com** neu roi galwad i ni ar **0800 052 0130** (gan ddyfynnu Cartref i staff y ganolfan alwadau).

Byddwn ni'n esbonio'r mathau o waith trwsio y gallwn eu cyflawni wrth drefnu'r ymweliad. Os gallwn ni helpu, byddwn ni'n cyflawni'r gwaith trwsio am ddim.

Hyd yn oed os na fydd yn bosibl i un o'n plymwyr drwsio'r gollyngiad, gallwn argymell plymiwr sydd wedi'i gymeradwyo gan WaterSafe. Gallwn hefyd gynnig awgrymiadau a thriciau defnyddiol er mwyn arbed dŵr ynghyd â chynnig cynhyrchion arbed ynni i chi.



# CYNHYRCHION ARBED DŴR A'R CYFRIFIANELL GET WATER FFIT

Os nad yw'ch eiddo yn un o'r ardaloedd lle'r ydyn ni'n gweithio, mae yna gamau y gallwch eu cymryd i ddechrau'ch siwrnai arbed dŵr.

Gall cyfrifiannell ddigidol Get Water Fit gan ein partneriaid Save Water Save Money eich helpu i wybod faint o ddŵr rydych chi'n ei ddefnyddio bob dydd ac hefyd sut y gallai effeithio ar eich biliau ynni.

Trwy ateb ambell i gwestiwn syml am eich defnydd o ddŵr yn y cartref ar ein **cyfrifiannell Get Water Fit**, gallwn gynnig cyngor i chi ar newidiadau syml y gallwch eu gwneud yn eich defnydd pob dydd o ddŵr.

Mae'r gwasanaeth yma'n rhoi'r cyfle i chi archebu cynnyrch arbed dŵr am ddim. Mae'r rhain yn hawdd eu gosod, ac maen nhw'n gallu cynnig arbedion mawr ar eich bil dŵr.

Os ydych chi'n berchennog busnes ac yn awyddus i osod cynhyrchion ynni'n effeithlon o fewn eich busnes, cysylltwch â ni. Efallai y gallwn ni eich helpu!




# SUT Y GALLWCH CHI HELPU

Gallwn ni i gyd wneud ein rhan.

Lledwch y neges trwy'r cyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio ein negeseuon parod sydd ynghlwm i ddangos i'ch dilynwyr eich bod chi'n cefnogi ein hwb i ddefnyddio dŵr yn effeithlon, gan eu cyfeirio at **www.dwrcymru.com/getwaterfit** am fanylion neu ein **rhaglen i drwsio** toiledau sy'n gollwng.

Cofiwch ddefnyddio **@DwrCymru** a hoffi a rhannu ein cynnwys â'ch dilynwyr.

Rhannwch y copi isod ar eich safleoedd mewnrwyd, gwefannau, newyddlenni a'ch blogiau i roi gwybod i bobl am yr angen i arbed dŵr.



# CYNNWYS Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

—

Croeso i chi ddefnyddio'r templedi a'r deunyddiau graffeg cysylltiedig ar gyfer negeseuon yn y cyfryngau cymdeithasol.


Oeddech chi'n gwybod? Gallai cau'r tap wrth frwsio dannedd arbed 10 litr o ddŵr – sef llond bwced! Rydyn ni'n cefnogi **@DwrCymru** i ddefnyddio llai o ddŵr, a gallwch chi helpu hefyd. Rhowch gynnig ar eu cyfrifiannell Get Water Fit i weld faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio bob dydd, a sut y gallai hynny effeithio ar eich biliau ynni. Cofrestrwch yn [dwrcymru.com/getwaterfit](dwrcymru.com/getwaterfit).




Oeddech chi'n gwybod bod toiled sy'n gollwng yn gallu gwastraffu cymaint â 400 litr o ddŵr y dydd? Mae hyn yn gallu effeithio ar eich defnydd o ddŵr, a'ch bil. Os ydych chi'n poeni bod dŵr yn gollwng yn eich cartref, anfonwch fideo byr o'r broblem at dîm Cartref Dŵr Cymru. Byddan nhw'n gallu cynnig cyngor i chi, neu drefnu apwyntiad i ddatrys y broblem yn hollol rad ac am ddim! Dilynwch y linc am fanylion **https://welshwater.vynapi.com/record?StoryboardName=customer-issue-reporting**



Os ydych chi, fel ni, yn chwilio am ffyrdd o arbed ynni ac arian, defnyddiwch gyfrifiannell Get Water Fir newydd **@DwrCymru**. Mae'r teclyn hwylus yma'n gadael i chi weld faint o ddŵr rydych yn ei ddefnyddio, a sut y gallech ddefnyddio llai. Cofrestrwch yn [dwrcymru.com/getwaterfit](dwrcymru.com/getwaterfit).




A dilynwch y sianeli cyfryngau cymdeithasol:

Twitter **@DwrCymru**

Facebook **@DwrCymruWelshWater**

Instagram **@DwrCymruWelshWater**

# FFEITHIAU DIFYR

—

# OEDDECH CHI'N GWYBOD?



Mae'r person cyfartalog yng Nghymru'n defnyddio 150 litr o ddŵr y dydd



Mae cau'r tap wrth frwsio dannedd yn arbed tua 10 litr o ddŵr



Gall tap sy'n diferu lenwi pump injan dân y flwyddyn




Mae peiriant golchi llestri yn defnyddio tua 20-40 litr o ddŵr y llwyth



Mae cawod yn arbed tua 20 litr o ddŵr y dydd o'i gymharu â chael bath

Trwy ddefnyddio'r holl ddŵr sydd ei angen arnoch, gan ofalu i beidio â'i wastraffu, gallwch chi helpu i wneud gwahaniaeth mawr.

Ewch i **wwww.dwrcymru.com/arbedwr** am ragor o ffyrdd o arbed dŵr.